

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

14. LLUSERNAU GWIBEROD

CYFLWYNIAD

Gweithgaredd creadigol mawr, mwyaf cyffrous, Gwiberod Gwych! oedd y daith llusernau gyda'r hwyr ar Faes Awyr Tyddewi. Gwnaethom wiber enfawr a llusernau papur trionglog llai o faint gyda phlant ysgol Blwyddyn 5 mewn ysgolion lleol, a chafwyd noson ddramatig, wych o storïa. Gallech gynnal digwyddiad teuluol tebyg, er mwyn codi ymwybyddiaeth o wiberod yn eich ardal chi.



Rhaid diolch i artist ein prosiect, Emily Laurens, am ddylunio a gwneud 'Gwiber'. Mae *Musgrove Willows*, y cyflenwyr yr ydym yn eu hargymell, hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau.

DEFNYDDIAU:

- Wyth gwialen helyg (Gweler 'Adnoddau' i weld yr holl gyflenwyr)
- Pedwar darn mawr o bapur sidan gwyn, sy'n gryf pan yn wlyb
- Un darn mawr o bapur sidan du sy'n gryf pan yn wlyb
- Tâp masgio
- Glud PVA - wedi'i ddyfrhau fel bod 2 gyfran o ddŵr am bob 1 cyfran o lud
- Gorchudd gwrth-ddŵr ar gyfer y bwrdd
- Pen Sharpie du
- Brws paent mawr
- Cannwyll LED bach neu olau gwthio
- Weiar a bambŵ (os ydych yn ei gario)

GWNEWCH!

1 Defnyddiwch y tâp masgio i dapio'r gwaiail helyg yn bedwar pâr, pob un tua 1.5m o hyd.



2 Gydag un pâr, gwnewch bedwar plygad tua 30cm ar wahân. Tynnwch y pennau at ei gilydd fel eu bod yn gorgyffwrdd a thapiwch gyda'i gilydd i greu sgwâr. Ailadroddwch i wneud sgwâr llai o faint (plygiadau 18cm ar wahân)



GWNEWCH!

- 3** Gwnewch y ddau bâr o wial helyg sy'n weddill yn siâp croes a'u huno gyda thâp. Rhewch y groes dros y sgwâr mawr a thapio corneli'r sgwâr arno i'r groes.



- 4** Plygwch bennau'r gwial helyg estynedig ar y pedwar cornel a'u casglu at ei gilydd mewn un pwynt. Torrwch y pennau a'u tapio.



- 5** Tapiwch y sgwâr llai o faint yn fras tua hanner ffordd i fyny tu mewn y pyramid yr ydych wedi ei greu - i'w gryfhau.



- 6** Er mwyn gorchuddio'r llusern mewn papur sidan, torrwch haenau trionglog bras ar gyfer yr ochrau, ychydig yn fwy na maint ochrau'r llusern.



- 7** Gorchuddi'wch y papur sidan gyda'r PVA sydd wedi'i ddyfrhau. Estynnwch yn ofalus dros y ffrâm. Gwnewch yr un peth ar bob ochr a'u torri i'r maint cywir ar gyfer y sylfaen. Gadewch ffenestr er mwyn rhoi'r kannwyll LED i mewn oddi tano.



- 8** Defnyddi'wch y papur tusw du neu unrhyw liw o'ch dewis, a thorrwch siapiau gwiberod a'u glynu ar y llusern. Ychwanegwch y manylder, pan fydd wedi sychu, gan ddefnyddio pen ffelt du neu Sharpie. Ychwanegwch gerddi/eiriau yn disgrifio gwiberod. Ychwanegwch ddolen weiar a'i llynu ar y top os ydych yn cario'r llusern. Rhewch gannwyll/olau LED yn y sylfaen

